Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
**Higher Education Funding Council for Wales**

hefcw

# Cylchlythyr | Circular

# Y Gronfa Arloesi Rhanbarthol (RIF) 2023/2024

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Mawrth 2024 | |
| **Cyfeirnod:** | W24/03HE | |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru | |
| **Ymateb erbyn:** | 22 Mawrth 2024 (derbyn cyllid)<br>26 Gorffennaf 2024 (crynodeb o weithgarwc) | |
| **Cyswllt:** | Enw: | Corinne Nguyen |
| | Ffôn: | 029 2085 9719 |
| | E-bost: | corinne.nguyen@hefcw.ac.uk |

Yn dilyn cyhoeddi'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol gan Lywodraeth y DU, mae CCAUC wedi cael £3.4m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â busnesau sy'n hybu twf economaidd a chynhyrchiant. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu manylion dyraniadau'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Ar 3 Hydref 2023, fe gyhoeddodd yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) Gronfa Arloesi Rhanbarthol (RIF) sy'n werth £60 miliwn i gefnogi economïau, masnacheiddio a thwf economaidd lleol a rhanbarthol.

2. Mae £3.4 miliwn o'r cyllid hwn wedi cael ei ddyrannu i Gymru, y bydd CCAUC yn ei ddosbarthu i sefydliadau addysg uwch Cymru i gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â busnesau sy'n hybu twf economaidd a chynhyrchiant. Mae RIF yn canolbwyntio'n arbennig ar ysgogi twf lleol a rhanbarthol.

## Defnyddio cyllid

3. Gall cyllid o'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol gael ei ddefnyddio'n hyblyg i gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â busnesau sy'n hybu twf economaidd a chynhyrchiant. Dylai'r prif ffocws fod ar bartneriaid, blaenoriaethau ac effeithiau lleol/rhanbarthol.

4. O ystyried y raddfa amser fer ar gyfer gwariant, rydym yn disgwyl y bydd y cyllid yn canolbwyntio ar gefnogi ac adeiladu ar y gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill (er y gellir defnyddio cyllid i gefnogi gweithgarwch newydd hefyd).

5. Gellir defnyddio arian ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf. Gall cyfalaf gynnwys prynu offer yn benodol at ddiben gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth gyda phartneriaid allanol yn unol â blaenoriaethau'r gronfa

6. Dylai cyllid gael ei neilltuo'n llawn o fewn y flwyddyn academaidd gyfredol, sef 2023/24, ar gyfer gweithgareddau o 3 Hydref 2023, dyddiad y cyhoeddiad DSIT. Ceidw CCAUC yr hawl i adfer unrhyw ran o ddyraniad sefydliad na chaiff ei wario ar weithgareddau cymwys erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

## Dyraniadau

7. Caiff y Gronfa Arloesi Rhanbarthol (RIF) ei dyrannu gan ddefnyddio'r elfen cyllid fformiwla o fethodoleg dyrannu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF). Mae'r cyllid fformiwla hwn yn seiliedig ar Fesurau Cenedlaethol CCAUC i roi cymhelliad ar gyfer perfformiad, fel a amlinellwyd yng nghylchlythyr W22/41HE.

8. I osgoi amheuaeth, mae RIF yn ffrwd gyllido untro ar wahân y dylid ei defnyddio i gefnogi gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymgysylltu â busnesau sy'n hybu twf economaidd a chynhyrchiant lleol/rhanbarthol. Rydym yn disgwyl y bydd y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â strategaethau RWIF sefydliadol, ond y gallent wella, neu fod yn ychwanegol at, gynlluniau cyflawni presennol.

9. Caiff dyraniadau RIF sefydliadau unigol eu nodi yn **Atodiad A**.

## Monitro

10. Dylai sefydliadau ddarparu crynodeb lefel-uchel, byr (uchafswm o 2 dudalen) yn manylu ar y gweithgareddau y mae'r cyllid hwn wedi'u cefnogi a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a nodir uchod.

11. Dylid cyflwyno hwn erbyn 26 Gorffenaf 2024, trwy'r e-bost i Corinne Nguyen, corinne.nguyen@hefcw.ac.uk.

## Amodau'r Cyllid

12. Mae'r cyllid a ddyrennir gan CCAUC ar gael gyda'r amodau cyffredinol ar gyfer talu arian gan CCAUC i Gorff Llywodraethu sefydliad. Caiff y rhain eu nodi yn Nhelerau ac Amodau Cyllid 2023/24. Dylai sefydliadau ystyried gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

13. Bydd taliadau'n cael eu gwneud ym mis Mawrth 2024.

## Derbyn cyllid

14. Mae CCAUC yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwario cyllid erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Er ein bod yn annog sefydliadau i ystyried sut y gallent wneud y defnydd gorau o'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol, rydym yn cynnig y cyfle i optio allan a dewis peidio â chael dyraniad, neu i gael swm is o gyllid.

15. Dylai sefydliadau gysylltu â corinne.nguyen@hefcw.ac.uk erbyn 22 Mawrth 2024 i dderbyn neu wrthod eu dyraniadau cyllid.

16. Mae'r dyraniadau cyllid a ddangosir yn **Atodiad A** felly'n rhai dros dro a gallent gael eu cynyddu i sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei dyrannu.

## Rhagor o wybodaeth

17. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Corinne Nguyen, corinne.nguyen@hefcw.ac.uk.

## Asesu effaith ein polisïau

18. Rydym yn cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym hefyd yn ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau o'r effaith.

**Atodiad A – Dyraniadau'r Gronfa Arloesi Rhanbarthol**

| | **Y Gronfa Arloesi Rhanbarthol (£)** |
|---|---:|
| Prifysgol De Cymru | 229,782 |
| Prifysgol Aberystwyth | 296,992 |
| Prifysgol Bangor | 415,427 |
| Prifysgol Caerdydd | 575,589 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 504,064 |
| Prifysgol Abertawe | 782,360 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 257,124 |
| Prifysgol Wrecsam | 271,999 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 66,663 |
| **Cyfanswm** | **3,400,000** |